

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW
7:30YH 30^{AIN} MAWRTH 2022
YNG NGHANOLFAN GWYTHERIN

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

1.2 Presennol: Diane Roberts (DR), Einir Williams (EW), Gwynfor Davies (GD), R. Emlyn Williams (REW), Ann Vaughan (AV) & Gwydion Jones (GJ)

1.3 Ymddiheuriadau: Mark Davies (MD) & Garffild Lloyd Lewis (GLL)

1.4 Absennol: Gwyn Williams (GW)

2 DATGANIAD DIDDORDEB

AV – 6.2

3 COFNODION I'W GWIRO 24^{AIN} CHWEFROR 2022

Cynnigwyd yn gywir yn dilyn cywiriadau gan AV ac eilwyd gan DR.

4 MATERION YN CODI

Trafodaeth rhwng y cynghorwyr am swydd y clerch a phwysigrwydd cael clerch a'r angen i fwrw ymlaen efo hysbysebu oherwydd rheolau newydd. Mel ap Owain wedi gyrru gwybodaeth ymlaen i'r Cynghorwyr yn dilyn y cyfarfod diwethaf. EW yn cynnig rhoi'r eitem ar yr agenda mis nesaf i roi swydd ddisgrifiad a thelerau gwaith mewn lle er mwyn paratoi hysbysebu'r swydd.

5 CEISIADAU CYNLLUNIO

Dim ceisiadau.

6 MATERION Y CYNGOR

6.1 EW wedi derbyn ffurfleni gan y Cyngor Sir yn dilyn y cyfarfod diwethaf i'r Cynghorwyr lenwi a'u dychwelyd ar gyfer yr etholiad erbyn 5^{ed} Ebrill. Hefyd wedi derbyn hysbysebion Hysbseb o Etholiad i'w gosod yn y tri pentref. GJ yn gofalu gosod yr hysbyseb ym Mhandy Tudur, CR yn Llangernyw ac EW i ofalu am Gwytherin. DR yn nodi fod y cyngor mewn cyfnod cyn-etholiadol (*purdah*).

6.2 CR yn darllen ebost gan Non Davies (yn bresennol yn y cyfarfod) i'r Cyngor dyddiedig 14^{eg} Mawrth yn gofyn am gywiriad i gofnodion cyfarfod mis Ionawr parthed 7.1. Darlennodd EW 7.1 i'r Cynghorwyr. Gofyn am gywiro os oedd Un Llais wedi ymgynghori efo'r Cyngor Cymuned, ddim efo Bute Energy. Cynghorwyr yn gytun i gywiro'r cofnodion.

6.3 REW wedi derbyn tender am £450 y torriad gan Dei Evans. Byddai costau ychwanegol ar gyfer casglu'r gwellt wedi ei dorri, REW am ofyn am bris erbyn y cyfarfod nesaf. Trafodaeth na fuasai angen casglu'r gwellt pob tro. Pawb yn gytun i roi y gwaith i Dei Evans.

6.4 Penderfynwyd i'w drafod yn ystod y cyfarfod mis Mai.

6.5 AV yn gofyn os oes sgipiau wedi eu archebu eto, EW heb wneud hyn eto ar gyfer mis Mai. Trafoadeth am y sgip gan y Cyngor Sir sydd yn dod i Llangernyw bob mis, os nad yw hwn yn cario ymlaen angen archebu sgip i Llangernyw hefyd.

EW yn codi'r mater o dâl ar gyfer Cynghorwyr. Heb dderbyn ffurflen ar gyfer y flwyddyn yma eto. Cynghorwyr yn trafod y rhesymau dros beidio derbyn yr arian.

6.6 EW wedi bod ar gwrs hyfforddi ynglyn a rheoli cyllid cyhoeddus yn diweddar. Yn dilyn y cwrs, adroddodd yn ôl fod y prosesau mae'r Cyngor yn ei ddilyn ynglyn â biliau, cyllidebu yn cael ei fonitro drwy gydol y flwyddyn, gosod y presept ac yn cofnodi fod rheolau ariannol yn cael eu adolygu'n flynyddol yn gywir. O ran gwendidau, angen cael trefn ar y rhestr asedau, trafodaeth am yr yswiriant a fod yr asedau wedi eu cofnodi ar ddogfennau'r yswiriant. Hefyd mae'r archwilwyr yn edrych faint o arian sydd wrth gefn ac angen edrych yn fanylach ar hyn yn y llyfr oedd yn cael ei awgrymu i'w ddarllen. EW o'r farn fod y Cyngor ar y trywydd iawn. Trafod y rhestr asedau a'r yswiriant yn ystod y cyfarfod nesaf. DR yn cynnig holi clercod cynghorau eraill pa gwmnïau mae'n nhw'n eu ddefnyddio ar gyfer yr yswiriant arbenigol cyn y cyfarfod nesaf.

7 ADRODDIAD CYNGHORYDD SIR

CR wedi derbyn ebost gan GLL yn ymddiheuro nad yw'n gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod ac wedi addo adroddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf.

8 BILIAU

8.1 Enlli: £144.28, cytunwyd i dalu.

8.2 GD yn gofyn os oedd anfoneb gan CVSC, EW yn cadarnhau nad oedd cost am ail-ymaelodi. Llenwi'r ffurflen i ail-ymaelodi yn ystod y cyfarfod nesaf.

9 MATERION LLEOL

AV yn codi fod angen trefnu Is-Bwyllgor Mynwentydd. REW heb dderbyn y drafft asesiad risg gan CVSC, am ofyn eto am hwn. I'w drafod yn ystod y cyfarfod nesaf. DR hefyd yn gofyn os oedd modd edrych ar gael mainc mewn lleoliad addas i allu cerdded ati yn y fynwent.

Gofyn os oedd CR wedi derbyn am amcan bris gan Kevin Roberts am bris i baentio'r safleoedd bws yn Llangernyw, CR i ofyn eto wrth Kevin am hwn. CR hefyd am ofyn am bris ar gyfer y gwaith ar gyfer y fainc ym mynwent Llangernyw.

Llechi yn llithro i ffwrdd o dô yr hen siop fach yn Llangernyw. Trafodaeth na Antoinette Sandbach sydd yn berchen yr adeilad.

REW yn codi fod carreg wedi disgyn ym mynwent Gwytherin ger y giat, ddim yn ymwybodol fod teulu bellach o gwmpas i gysylltu â nhw. Angen sicrhau fod y carreg yn saff. EW yn cynnig fod y Cyngor yn gofalu am roi y carreg yn ôl yn ei lle, AV yn eilio, CR i ofyn wrth Cofgolofnau'r Dyffryn am amcan bris i ymgymryd â'r gwaith.

DR wedi derbyn cais yn gofyn sut mae'r cyhoedd yn gallu cysylltu efo'r Cyngor Sir oherwydd fod gohebiaeth yn dod trwadd gan y Cyngor yn rhoi cyswllt ebost yn unig felly ddim yn hwylus i henoed sydd ddim yn gybyddus â'r wê neu efo ddim efo cyswllt wê cryf. DR am ofyn wrth GLL am gyngor.

Wedi derbyn gohebiaeth gan Un Llais fod angen i gynllyn hyfforddi gael ei ysgrifennu yn dilyn etholidau. Angen paratoi adroddiad llawn hefyd.

Gofyn os oedd ymateb wedi bod ynglyn a Brook House, CR yn adrodd fod gwrthwynebion eraill wedi eu derbyn.

EW wedi derbyn 2 boster baw cŵn gan y Cyngor. CR heb gysylltu efo'r Warden Cŵn eto, am wneud erbyn y cyfarfod nesaf.

Wedi gosod hysbyseb yn gofyn am amcan brisiau ar gyfer gwaith ffynon blwyf ac adroddiad ar gyfer y goeden ywen yng Ngwytherin, dyddiad cau cyn cyfarfod mis Ebrill.

Heb gael amser i fynd i brynu gliniadur i'r Cyngor eto.

Wedi derbyn cwynion am gyflwr y ffordd Pennant, mae'r gwyn wedi ei nodi ar Report It yn barod. EW am nodi hwn ar Report It hefyd.

Ychwanegu cwestiynnau budd cymunedol ynni gwynt gan Non Davies yrrwyd ymlaen ar ebost cyn y cyfarfod ar agenda mis nesaf.

Gofyn i DR holi Un Llais os oes fersiwn diweddarach na 2007 ar gyfer côd ymddygiad cynghorwyr.

CR yn nodi fod rhywfaint o'r tyllau ar Allt Tyn Pistyll wedi eu trwsio ond fod dŵr o'r caeau cyfagos yn llifo i'r ffordd. GJ yn adrodd fod y Cyngor Sir wedi bod ar y safle yn ddiweddar, GJ am fynd i edrych yno i weld beth sydd angen ei wneud.

Non Davies wedi derbyn gohebiaeth gan Bute Energy fod cyfarfod wedi ei drefnu gyda'r Cyngor Cymuned ar 25^{ain} Mai 2022. Adroddodd CR fod Bute Energy wedi gofyn am gyfarfod gyda'r Cynghorwyr cyn trefnu cyfarfod cyhoeddus ond na fuasai'r cyhoedd yn cael eu heithro o'r cyfarfod. Atgoffodd EW bawb am reolau statudol y Cyngor ynglyn ac aelodau'r cyhoedd yn cymeryd rhan mewn pwyllgorau.

10 CYFARFOD NESAF

27^{ain} Ebrill 2022 yn Ffestri Pandy Tudur

Cyfarfod yn dod i ben 9:15yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan